# Atodlen Cyfrifoldeb y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

| Teitl y Sefydliad | Swyddogaeth | Cyfrifoldeb Cydymffurfiaeth GDPR |
|---|---|---|
| **Complete Background Screening (CBS)** | • Cyfanwerthwr gwasanaeth archwilio DBS ar-lein<br>• 'Corff ymbarél' cofrestredig ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn y DU<br>• Cydlofnodwr ar gyfer archwiliadau'r DBS<br>• Perchennog system ymgeisio ar-lein y DBS 'Map it and Go' | **Rydych chi'n debygol o drin data personol, data personol categori arbennig a data perthnasol i euogfarnau a throseddau.**<br><br>**Mae gennych chi ddyletswydd i gydymffurfio â'r GDPR mewn perthynas â'r holl ddata personol rydych chi'n eu prosesu. Mae hyn yn cynnwys data personol rydych chi'n eu prosesu ar gyfer unigolion a gyfeirir atoch chi drwy gyfrwng ein cwsmeriaid.**<br><br>**Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys cydymffurfio â'r egwyddorion craidd yn erthygl 5 y GDPR.**<br><br>**Bydd rhaid i chi fod â systemau a gweithdrefnau yn eu lle i gydymffurfio â'r egwyddorion a grybwyllir uchod. Bydd rhai o'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys:**<br>• **Rhoi gwybod i unigolion am sut rydych yn prosesu eu data personol;**<br>• **Rhoi gwybod iddynt am eu hawliau o dan y ddeddfwriaeth diogelu data;**<br>• **Os ydych yn dibynnu ar ganiatâd i brosesu 'categori arbennig' o ddata personol yn gyfreithiol rhaid i chi gael caniatâd penodol sy'n cynnwys datganiad clir a phenodol iawn o gydsyniad.**<br>• **Rhaid wrth awdurdod cyfreithiol neu swyddogol priodol cyn prosesu data personol sy'n berthnasol i'w heuogfarnau a'u troseddau.** |

| Teitl y Sefydliad | Swyddogaeth | Cyfrifoldeb Cydymffurfiaeth GDPR |
|---|---|---|
| **Vibrant Nation** | • Adwerthwr gwasanaeth archwilio ar-lein y DBS<br>• Caffael cleientiaid sydd angen gwasanaethau'r DBS<br>• Darparu darpariaeth rheoli cyfrifon a gwasanaethau cwsmeriaid ar gyfer pob agwedd ar broses ymgeisio'r DBS (ar gyfer cleientiaid ac ymgeiswyr)<br>• Llunio bil ag arno eitemau wedi'u rhestru ar gyfer cyfrifon cwsmeriaid<br>• Creu adroddiadau ar gyfer cwsmeriaid at ddibenion dadansoddiad ystadegol | **Rydych chi'n debygol o drin data personol yn unig.**<br><br>**Mae gennych chi ddyletswydd i gydymffurfio â'r GDPR mewn perthynas â'r holl ddata personol rydych chi'n eu prosesu. Mae hyn yn cynnwys data personol rydych chi'n eu prosesu a dderbynnir gan Complete Background Screening a chan eich cwsmer.**<br><br>**Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys cydymffurfio â'r egwyddorion craidd yn erthygl 5 y GDPR.**<br><br>**Bydd rhaid i chi fod â systemau a gweithdrefnau yn eu lle i gydymffurfio â'r egwyddorion a grybwyllir uchod. Bydd rhai o'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys:**<br>• **Rhoi gwybod i unigolion am sut rydych yn prosesu eu data personol;**<br>• **Rhoi gwybod iddynt am eu hawliau o dan y ddeddfwriaeth diogelu data.** |

| **Teitl y Sefydliad** | **Swyddogaeth** | **Cyfrifoldeb Cydymffurfiaeth GDPR** |
|---|---|---|
| **Uwch Ddefnyddiwr** | • Cwsmer gyda sawl cyfrif<br>• Gallu gweld yr holl geisiadau gyda'r holl nodweddion wedi'u nodi ym mynediad y Gweinyddwr<br>• Rheoli HOLL ddefnyddwyr y system a'u mynediad, gan gynnwys Dilyswyr Adnabod<br>• Creu cyfrifon newydd<br>• Ailosod cyfrineiriau cyfrifon<br>• Gweld a chyfrannu at lwybrau archwilio<br>• Echdynnu gwybodaeth reoli | **Rydych chi'n debygol o drin data personol, data personol categori arbennig a data perthnasol i euogfarnau a throseddau.**<br><br>**Mae gennych chi ddyletswydd i gydymffurfio â'r GDPR mewn perthynas â'r holl ddata personol rydych chi'n eu prosesu. Mae hyn yn cynnwys data personol rydych chi'n eu prosesu ar gyfer unigolion a gyfeirir atoch chi drwy gyfrwng ein cwsmeriaid.**<br><br>**Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys cydymffurfio â'r egwyddorion craidd yn erthygl 5 y GDPR.**<br><br>**Bydd rhaid i chi fod â systemau a gweithdrefnau yn eu lle i gydymffurfio â'r egwyddorion a grybwyllir uchod. Bydd rhai o'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys:**<br><br>• **Rhoi gwybod i unigolion am sut rydych yn prosesu eu data personol;**<br>• **Rhoi gwybod iddynt am eu hawliau o dan y ddeddfwriaeth diogelu data;**<br>• **Os ydych yn dibynnu ar ganiatâd i brosesu 'categori arbennig' o ddata personol yn gyfreithiol rhaid i chi gael caniatâd penodol sy'n cynnwys datganiad clir a phenodol iawn o gydsyniad;**<br>• **Rhaid wrth awdurdod cyfreithiol neu swyddogol priodol cyn prosesu data personol sy'n berthnasol i'w heuogfarnau a'u troseddau.** |

| Teitl y Sefydliad | Swyddogaeth | Cyfrifoldeb Cydymffurfiaeth GDPR |
|---|---|---|
| **Dilyswr Adnabod (DA)** | • Unigolyn sy'n cael mynediad i fwy nag un cyfrif fel yr awdurdodwyd i wneud hynny gan yr uwch ddefnyddiwr e.e. mae mwy nag un cyfrif yn y system, e.e. staff mewnol neu glybiau. Gall y Dilyswr Adnabod gael mynediad i'r cyfrifon y mae'r uwch ddefnyddiwr wedi ei awdurdodi i gael mynediad iddynt at bwrpas dilysu pwy yw ymgeisydd DBS. | **Rydych chi'n debygol o drin data personol, data personol categori arbennig a data perthnasol i euogfarnau a throseddau.**<br><br>**Rhaid i chi gydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n cael eu pennu a'u rhoi yn eu lle o dro i dro gan eich sefydliad (yr Uwch Ddefnyddiwr).** |
| **Gweinyddwr** | • Derbyn manylion mewngofnodi gan yr Uwch Ddefnyddiwr (Vibrant Nation)<br>• Creu ceisiadau newydd<br>• Tracio pob cais<br>• Edrych ar lwybrau archwilio<br>• Edrych ar ganlyniadau amser real<br>• Edrych ar sgriniau crynodeb addas i argraffwyr<br>• Derbyn hysbysiadau | **Rydych chi'n debygol o drin data personol, data personol categori arbennig a data perthnasol i euogfarnau a throseddau.**<br><br>**Rhaid i chi gydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n cael eu pennu a'u rhoi yn eu lle o dro i dro gan eich sefydliad.** |
| **Ymgeisydd DBS** | • Derbyn manylion mewngofnodi ar e-bost ac yn llenwi ffurflen gais ar-lein.<br>• Cyflwyno i'r Gweinyddwr ar gyfer gwirio, cymeradwyo a chyflwyno.<br>• Cyflwyno dogfennau adnabod i'r Dilyswr Adnabod er mwyn cwblhau'r broses ymgeisio. | **Byddwch yn trin eich data eich hun ac ni fydd y GDPR yn berthnasol i chi.**<br><br>**Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'ch hawliau o dan y GDPR cyn i chi ddarparu eich data personol.** |